

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y we, Nos Fawrth, 8fed Medi 2020 am 7 o'r gloch.

Agenda

- 1. Presennol:** Sian Dafydd (Cadair), Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Ffion Jones – Nantlle; Iona Wyn Jones, Barry Bracegirdle, Dylan Herbert, Justin Davies – Penygroes; Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Judith Humphreys - Cynghorwyr Sir;
Ymddiheuriadau: Harry Wyn Owen – Talysarn, Hefina Roberts – Llanllyfni, Dafydd Thomas – Nebo, Craig ap Iago – Cynghorwr Sir a Justin Davies yn ymddiheuro na fydd yn gallu ymuno yn y cyfarfod tan 8.00. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan Erfyl Williams – Penygroes na gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd Talysarn.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 11 Awst 2020.** Ail enw Gareth yn anghywir ar y cofnodion – dylai fod yn Lloyd nid Wyn. Barry yn cynnig y cofnodion yn gywir, a Gareth yn eilio.
- 4. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Judith Humphreys – fe adroddodd ar y gwaith yr oedd wedi bod yn ymwneud ag o ers y cyfarfod diwethaf a oedd yn cynnwys - Ymholiadau gyda safle ffactri Northwood yn dal i barhau. Trafodaethau yn parhau ynglyn a threfniadau newydd uno meddygfeydd Penygroes. Wedi cael cyfarfod rhithiol gyda swyddog newydd Prosiect Bwyd ac Amgylchedd Siop Griffiths. Ymateb a chyfathrebu ynglyn a chais cynllunio Tyn Y Weirglodd. Wedi bod mewn cysylltiad gyda'r cyngor ynglyn a biniau llawn o gwmpas y lle. Ymwneud ar syniad o greu murlun arall ym Mhenygroes a gosod gwaith celf pobl ifanc mewn mannau gwahanol yn y pentref. Cysylltu gyda'r cyngor a'r heddlu ynglyn ar problemau parcio o flaen y clinic. Ymateb i ymholiadau am drefniadau llyfrgelloedd – disgwyl ymateb ynglyn ag os y gellir ail agor llyfrgell Penygroes gan eu bod yn meddwl nad ydi'r adeilad yn addas oherwydd nad oes ffenest yn agor yna a na ellir awyru yr adeilad yn ôl gofynnion rheolau Cofid 19. Holodd Iona Jones os oedd efallai opsiwn os y buasai Canolfan Hamdden Plas Silyn yn medru agor llyfrgell os oeddynt yn teimlo nad ydi adeilad y llyfrgell nawr ddim yn addas? Judith am wneud ymholiadau ynglyn a hyn. Diolchwyd i Judith am ei gwaith.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.**
Cors Y Llyn – Cynllun Canglwm - Yn absenoldeb Dafydd Thomas adroddodd O.P Huws fod y cynllun Canglwm Cors Y Llyn yn barod nawr i symud i'r ail gam ac mae y Pwyllgor Ardal Nebo wedi rhoi cais ymlaen i ofyn i Gyngor Cymuned Llanllyfni am arian i ariannu prynu offer ar gyfer y cam nesaf. Maent yn gwneud cais am £500 gan Gyngor Cymuned Llanllyfni fydd yn cynnwys cytundeb y byddent yn helpu y Cyngor os fydd yna ganglwm yn ymddangos yn y mynwentydd. Mae Harry Owen a swyddog sy'n ymwneud a'r canglwm wedi bod o gwmpas ag yn cadarnhau nad oes canglwm yno ar hyn o bryd. O P Huws yn datgan diddordeb ei fod ar y Pwyllgor Ardal ond nad yw o yn ymwneud a'r canglwm.
Trafodwyd y mater hwn ac hefyd codwyd y pwynt os y buasai y prosiect yma yn mynd o gwmpas yn lladd chwyn yn Mynwentydd Cyngor Cymuned Llanllyfni – esboniwyd nad ydi lladd chwyn yn ran o'r prosiect a mai dim ond canglwm y mae nhw yn arbennigo ynddo. Holodd Dylan Herbert os ydi lladd chwyn yn rhan o gytundeb y contractwyr sydd yn torri gwair a trin y mynwentydd? Ydi, mae hyn yng nghytundeb y contractwyr. Yn dilyn y drafodaeth **penderfynwyd** i roi £500 tuag at y prosiect ond angen gwybod hefyd eu bod nhw yn mynd i ymdrin ag unrhyw ymddangosiad o ganglwm sydd yn dod fyny ar dir Cyngor Cymuned Llanllyfni yn ddi-dâl. Y clerc i ymateb i'r cais a gwneud ymholiad ynglyn a beth drafodwyd.

Man ail gylchu Penygroes - Holodd Gwyndaf Roberts os oedd ebost wedi ei dderbyn gan Peter Simpson yn dilyn ei sgwrs yn y cyfarfod diwethaf ar y man ailgylchu yn Penygroes. Roedd pawb wedi derbyn ebost – y clerc i basio copi ymlaen i Gwyndaf.

Goleuadau Nadolig – Holodd Sian Dafydd os oeddynt wedi clywed unrhywbeth yn nôl yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf? Dylan Herbert wedi cysylltu gyda Dale (trydanwr) ac roedd wedi cytuno i dynnu y goleuadau i lawr ond y diwrnod roedd am wneud mi roedd yn dywydd mawr a ni allodd eu tynnu. Dim yn gwybod os ydi Dale wedi bod wedyn yn eu tynnu – Dylan am ei holi/mynd i edrych. Dylan hefyd wedi gyrru ebost i Scottish Power ynglyn a tynnu'r meters ac esboniodd ei fod wedi gorfod codi cwyn ar ran Cyngor Cymuned Llanllyfni er mwyn cael y gwaith yma wedi ei wneud yn gynt. Esboniodd fod Scottish Power wedi bod ar stop oherwydd y Cofid19 a rwan mae nhw yn trio dal fyny hefo'r gwaith sydd ganddynt. Dylan i basio yr ebost hwn ymlaen i'r clerc. Hefyd esboniodd fod Dale am asesu cyflwr y goleuadau nadolig a brynodd ar ran y cyngor rhai blynyddoedd yn nôl a gweld os y byddent yn iawn am eleni. Ond nid yw yn gwybod lle mae gweddill y goleuadau ac mae yn gofyn os y buasai yn bosib cael eu cadw yn y gofod uwchben Neuadd Goffa Penygroes? Dylan wedi ebostio Ben (Neuadd Goffa) ond heb glywed yn nôl ganddo eto ynglyn a cael cadw y goleuadau yno. Diolchwyd i Dylan am ei waith gyda hyn.

Ymatebion gan Gyngor Gwynedd – dim byd wedi eu derbyn.

6. Amcanion Gwella a Llesiant 2021-26 – darllenodd y clerc yr ebost a oedd wedi ei basio mlaen i'r cynhorwyr – cynnigwyd i adael y mater am y tro ac os oes rhywun angen ei drafod yna cawn ei drafod mewn cyfarfod eto. **Cytunodd** pawb gyda hyn.

7. Man ailgylchu Penygroes – Yn dilyn o'r drafodaeth gyda Peter Simpson yn y cyfarfod diwethaf ynglyn a phroblemau gyda'r man ailgylchu teimlai y cynghorwyr yn gryf y dylid cwffio i gadw y man yma yn Benygroes. Teimlai Gwyndaf Roberts y bydd tipio slei bach yn digwydd fwy fwy os bydd y biniau hyn yn cael eu tynnu oddi yma. Yn dilyn o ebost Justin Davies cynnigwyd y dylid gadael y pwynt yma hyd nes y bydd Justin yn ymuno gyda'r cyfarfod yn nes ymlaen. **Cytunwyd**.

8. Ymestyn cytundeb pori Macpelah - y cytundeb bellach wedi dod i ben ag angen penderfynu os yw'r cyngor am ei ymestyn am gyfnod pellach. **Trafodwyd** y mater a cynnigwyd gan O P Huws i ymestyn y gytundeb hyd at ddiwedd Rhagfyr a cynnigwyd gan Barry Bracegridle y dylid ei ymestyn am 6mis hyd at ddiwedd Mawrth 2021. **Cytunodd** pawb i ymestyn y gytundeb hyd at ddiwedd Mawrth 2021. Sian Dafydd yn cytuno i edrych dros y gytundeb a gwneud y newidiadau sydd ei angen a'i gyrru ymlaen i'r clerc er mwyn ei gyrru i'r tenantiaid.

9. Ystafelloedd Newid Talysarn – nid oedd dim i'w drafod am hyn. Ei roi ar agenda mis Hydref i'w drafod.

Ymunodd Justin Davies a'r cyfarfod ag aethpwyd yn nôl i drafod pwynt 7 – Man ailgylchu Penygroes – yn ei ebost beth oedd Justin yn geisio ei roi drosodd oedd bod y man ailgylchu yn le handi yn Benygroes tra bo y safleoedd eraill angen apwyntiad i fynd iddynt. Esboniodd Gwyndaf ei bwynt y dylid cwffio i gadw y man ar agor ag os y bydd yn mynd yna bydd tipio slei bach yn siwr o ddigwydd. Meddyliai Iona Jones ei bod yn anodd dadlau yn erbyn y data yr oedd Peter Simpson wedi ei roi ymlaen yn y cyfarfod diwethaf. Dylan Herbert yn meddwl mai angen cynyddu y biniau sydd a nid cael gwared ohonynt. **Trafodwyd** y mater ymhellach a cynnigiodd Iona Jones fod y cyngor cymuned yn gofyn am amser i addysgu pobl yr ardal ar sut i wneud y defnydd cywir o'r man ailgylchu. Awgrymodd y dylai'r cyngor gael cynllun a gwneud ymgyrch gan ddefnyddio posteri, arwyddion, pamffledi ayyb. Yn dilyn trafodaeth **cytunwyd** i gysylltu gyda Peter Simpson gyda'r cynnig hwn a gofyn am gyfnod o 4 mis i redeg yr ymgyrch a bod cynghorwyr Penygroes i benderfynu sut i fynd ymlaen gyda'r ymgyrch a beth ddylid ei roi ar yr arwyddion a posteri a ballu.

10. Materion Pentrefi – Penygroes – llawer iawn o gwynion a pryderon wedi dod i law ynglyn a'r uno rhwng meddygfeydd Corwen House a Llys Meddyg. Cleifion yn dweud nad ydynt yn medru cael drwodd i'r feddygfa gan fod y ffôn yn brysur drwy'r adeg a wedyn hyn yn golygu nad ydynt yn medru cael apwyntiadau, eraill yn methu cael presgriptiwn am 72 awr a rhai yn dweud bod prinder o feddyginiaethau y maent eu hangen. Pryderon eraill a godwyd oedd bod parcio nawr yn mynd yn broblem gyda'r nifer yn fwy o gleifion yn Corwen House a hefyd bod y ffaith fod cleifion yn gorfod sefyll tu allan yn mynd yn broblemus yn enwedig pan fydd y tywydd yn gwaethygu. **Trafodwyd** y mater hyn a cynnigwyd y dyliai'r Cyngor Cymuned lythyru y feddygfa ynglyn a'r pryderon sydd wedi eu codi a gofyn am ymateb gyda sut maent yn meddwl symud ymlaen. Hefyd cynnig i yrru copi o'r llythyr at Helen Williams, Cydlynnydd Clwstwr (Gorllewin), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Jo Whitehead, Prifweithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Y clerc i lunio llythyr a'i yrru i weddill y cynghorwyr i edrych drosto a roi eu barn a mewnbwn cyn ei basio ymlaen i'r feddygfa. **Cytunodd** pawb gyda hyn.

Materion eraill a godwyd yn Penygroes oedd – angen cysylltu gyda Cyngor Gwynedd ynglyn a chyflwr Ffordd Llwyndu – bod y pafin yno yn mynd yn llai a bod pant yn y ffordd lle mae dŵr yn sefyll o flaen y tai. Perchnogion y fferyllfa yn gofyn am lamp yn y ffordd gefn. Cae Cwtin – angen rhywun i dorri y drain yma. Y clerc i gysylltu gyda'r cyngor am y materion hyn.

Llanllyfni – Coed wrth Cefn Faes Llyn yn dechrau tyfu i'r ffordd ag angen eu torri – y clerc i gysylltu gyda swyddog o'r cyngor am hyn.

Talysarn – Wal Lôn yr eglwys angen ei atgyweirio a pryder fod y wal am ddisgyn i'r ffordd. Dim yn siwr pwy yw'r perchnogion felly Sian Dafydd am edrych fewn i hyn a'r clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i'w hysbysu am y perygl.

Nebo – Holwyd os yw'r cerrig a oedd wedi disgyn i'r ffordd wedi eu codi bellach – Na. Y clerc i gysylltu gyda'r cyngor i ofyn beth yw'r oedi ynglyn a hyn.

Nantlle – Pryderon am y llifogydd ar y ffordd tu allan i Ty Coch. Bob tro mae'n bwrw mae yn beryglus yno ac angen sylw brys. Y clerc i gysylltu gyda cyngor Gwynedd am hyn.

11. Taflen Ariannol a Chyllid – Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros ebost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Nid oedd dim sylwadau ac fe'u cymeradwyd. Cynnigwyd efallai y buasai Gareth Jones yn fodlon rhoi y clerc newydd ar ben ffordd ar sut fuasai y ffordd orau i gyflwyno y manylion yma erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunodd Gareth i wneud hyn. Diolchwyd iddo.

12. Seddi gwag – enw Peter Bridges wedi cael ei roi ymlaen fel cynghorydd ar gyfer ward Talysarn. Cynnigiodd Sian Dafydd fod y cyngor yn ei gyfethol ac eilwyd gan Justin Davies, cytunodd pawb. Y clerc i gysylltu gyda Peter a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf ar 13 Hydref. Cynnigiodd Barry Bracegridle enw Gavin Usher ar gyfer y sedd wag yn Penygroes ond mae rhaid cael cadarnhad gan Gavin gyntaf ei fod yn fodlon cyn ei gyfethol.

13. Cynllunio: Ceisiadau sydd wedi dod ger bron – Cais NP3/22/76B, 13 Pen yr Orsedd, Nantlle – dim gwrthwynebiad.

14. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis – dim byd i'w drafod yma.

15. Gohebiaeth – dim gohebiaeth wedi ei dderbyn.

16. Llwybrau a Mynwentydd – Tirlunio Macpelah – O P Huws wedi gyrru drafft o'r tendr i bawb gael edrych drosto. **Penderfynwyd** bod angen 2 o'r cynghorwyr i gyfarfod gyda'r contractwyr - Harri Owen ag un arall. Wedi cael awgrym y dylid rhoi tendr allan nawr am y tarmacio i gael syniad ynglyn a beth fydd y costau. Penderfynwyd gadael y mater tirlunio hyd at nes ymlaen yn y prosiect. Angen nawr hysbysebu y tendr- Nia i holi Alwen sut i fynd ymlaen gyda gwneud hyn.

Cais am brynu bedd yn Mynwent Gorffwysfa, Llanllyfni – Y clerc wedi derbyn cais gan deulu yn gofyn i drafod y mater yn y cyfarfod heno eu bod eisiau prynu bedd yn Mynwent Gorffwysfa, Llanllyfni. Trafodwyd y mater a **penderfynwyd** er mwyn tegwch i deuluoedd ac unigolion eraill sydd wedi gwneud ceisiadau yr un fath y dylid cadw at reolau y polisi nad yw yn bosib prynu beddau cadw yn Mynwentydd Cyngor Cymuned Llanllyfni. Y clerc i ymateb yn nôl i'r teulu yn dweud hyn.

Llwybrau – Llwybr 59 Taleithin Isaf – Coed angen eu torri. Llwybr 116 – Ffordd Haearn Bach i Lôn Groes angen ei thorri a llwybr drwy gae Ifan Shelton hefyd angen ei dorri – y clerc i gysylltu gyda'r contractwyr ynglyn a cael y gwaith yma wedi ei wneud.

17. Materion yn ymwneud â'r heddlu – Dim i'w drafod yma ond O P Huws yn gofyn a oes eisiau gwadd aelod o'r heddlu i gyfarfod rhywbryd yn y dyfodol agos. Barry Bracegridle yn cynnig y dylid gwahodd Sgt Non Edwards i'r cyfarfod nesaf 13 Hydref. Pawb yn cytuno i'r clerc estyn gwahoddiad iddi.

18. Materion ariannol – Nia Jones – Ffôn a rhyngwyd Medi £25. Cytunwyd i'w dalu. Angen mynd ati i newid manylion yn y banc.

19. Ceisiadau am arian – hyn wedi ei drafod yn pwynt 5, Cors Y Llyn – Cynllun Canglwm.